# Eisiau cadw'n ddiogel wrth gael hwyl ar lan y môr? Dyma sut…

OS YDYCH YN MYND GYDA RHYWUN ARALL, COFIWCH DDWEUD WRTHYN NHW HEFYD AM SUT I GADW'N DDIOGEL!

## Ar ôl ichi gyrraedd…

Chwiliwch am **amser y llanw uchel a'r llanw isel**. Wedyn os ewch i grwydro'r traeth gallwch ddod nôl mewn pryd cyn y llanw.

Trefnwch **fan cyfarfod** gyda'ch teulu a'ch ffrindiau rhag ofn ichi fynd ar goll. Os ewch chi i grwydro, dwedwch wrth rywun ble rydych chi'n mynd ac ewch â ffôn symudol.




## Ar y traeth


Ewch i draeth ag **achubwyr bywydau** os gallwch chi. I ddod o hyd i un, ewch i **www.goodbeachguide.co.uk**

**Gofal!** Gall twneli tywod a thyllau dwfn ddymchwel a'ch dal!




Llun: RNLI


## Baneri




Mae'r fan lle mae'n ddiogel nofio a chorff-fyrddio rhwng y **baneri coch a melyn**.



Mae **baner goch blaen** yn golygu ei bod yn rhy beryglus i fynd i'r dŵr.



Mae'r **baneri â sgwariau du a gwyn** yn dangos y fan sydd wedi'i neilltuo ar gyfer syrffio, felly peidiwch â nofio yno.



Mae **hosan wynt oren** yn golygu ei bod yn wyntog iawn ac na ddylech ddefnyddio teganau a chychod chwythu ar y môr.

## Nofio, y llanw a'r cerrynt

**Nofiwch gyda ffrind, arhoswch o fewn eich dyfnder** ac **yn agos i'r lan.**

Os cewch eich dal mewn cerrynt cryf, **peidiwch â cholli'ch pen, codwch eich llaw** a **gweiddwch am help**. Daliwch afael ar eich bwrdd os oes un gennych. Os nad oes neb yno i helpu, nofiwch yn gyfochrog â'r traeth nes eich bod yn gallu nofio neu gerdded i'r lan.









## Cychod a theganau chwythu

Os yw'r **gwynt yn chwythu i ffwrdd** o'r traeth gallwch gael eich chwythu allan i'r môr ar gwch neu degan chwythu, hyd yn oed os nad yw'r gwynt yn gryf. **Peidiwch â'u defnyddio** ar y traeth, ond os gwnewch chi arhoswch yn y fan rhwng y baneri. **Peidiwch byth â'u defnyddio** pan fo'r faner goch yn chwifio.

## Diogelwch ar glogwyni

Os ydych yn cerdded ar hyd clogwyni **gwisgwch esgidiau a dillad addas** ac **ewch â ffôn symudol**. Os ydych yn mynd â'r ci, cadwch y ci ar dennyn a chadwch at lwybrau sydd wedi'u marcio.

**Cadwch draw o ymyl y clogwyn,** peidiwch â dringo na neidio ar glogwyni; gallech gael eich anafu.





**Os oes rhywun mewn trafferth ar lan y môr dywedwch wrth achubwr bywydau os gallwch chi, neu ffoniwch 999 a gofyn am Wylwyr y Glannau**

HM Coastguard

# cadwch yn ddiogel ar lan y môr



# Trafferth ar lan y môr?... Dyma sut i gael help...





## Gweithgareddau




### Torrwch y cod

**Allwch chi ddatrys y cod yma?**

Gan ddefnyddio'r tabl isod, ceisiwch weld beth yw'r neges. Ceisiwch ddatrys y cod heb ddefnyddio'r tabl cyfateb ar gyfer pob llythyren.




### Chwiliwch am y geiriau

**Allwch chi ddod o hyd i'r geiriau yn y chwilair?**

| | | |
|---|---|---|
| GWYLWYR | LLANW | NOFIO |
| ACHUBWR | TRAETH | CLOGWYN |
| BANER | FFONIO | PERYGL |
| CERRYNT | DYFNDER | DIOGEL |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TH | A | N | L | Y | W | T | L | P | FF | F | P |
| D | G | A | B | H | T | R | A | E | TH | O | A |
| R | W | FF | C | B | U | P | C | B | P | N | CH |
| B | J | T | O | NG | N | F | E | H | C | C | U |
| D | P | DD | C | N | P | E | R | Y | G | L | B |
| Y | U | E | W | D | I | D | R | A | R | O | W |
| F | S | L | S | I | B | O | Y | U | H | G | R |
| N | O | F | I | O | D | P | N | T | N | W | R |
| D | Y | FF | P | G | RH | W | T | T | A | Y | N |
| E | R | S | D | E | R | C | I | LL | A | N | W |
| R | G | W | Y | L | W | Y | R | G | CH | M | I |
| A | C | O | E | I | P | M | O | M | R | U | LL |

### Beth yw'r gair coll?

**Darllenwch y brawddegau canlynol a chanfod pa eiriau pwysig sydd ar goll:**

1. Os bydd rhywun mewn trafferth ar lan y môr, dylwn i ffonio ________ a gofyn am ________.
2. Os yw'r gwynt yn chwythu i ________________ o'r traeth fe allwn i gael fy chwythu allan i'r môr yn gyflym ar ________________, hyd yn oed os nad yw'r gwynt yn gryf.
3. Os af i i'r traeth, dylwn i geisio mynd i draeth lle mae yna ________________.
4. Pan fydda i yn y môr, dylwn i aros o fewn fy ________________, yn agos i'r ________________ a rhwng y baneri ________________.



**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/coastguardsafety**